

Cynnwys

Ffrâm wau cardfwrdd yn barod ar gyfer gwehyddu
Gwennol gwehydd
Llinyn sbâr ar gyfer rhagor o wehyddu
Detholiad o ddeunyddiau synhwyraidd i'w harchwilio
a'u defnyddio i wehyddu



Am fwy o wybodaeth am wehyddu o Ganolfan Grefft Ruthun ewch i:

http://ruthincraftcentre.org.uk/assets/RCC_Michael_Brennand_Wood_Learning_Pack.pdf

http://ruthincraftcentre.org.uk/assets/WIC_Process_Resource_Pack_ENGLISH.pdf

Lluniwyd y pecyn hwn gan Ticky Lowe, Cyfarwyddwr Making Sense CIC.

Mae Making Sense yn gwmni budd cymunedol dan arweiniad artist sy'n arbenigo mewn gweithgareddau ac adnoddau synhwyraidd a chreadigol.

Os hoffech chi ganfod rhagor am ein gwaith ewch i www.makingsensecic.org.uk

neu gysylltu gyda tickyloew@makingsensecic.org.uk

Byddem wrth ein boddau'n gweld lluniau neu ffilmiau ohonoch chi'n cymryd rhan yn y gweithgaredd!

Cofiwch sôn am Makingsensecic os ydych chi'n rhoi rhywbeth ar Facebook!

Llenwch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda a'i dychwelyd pan fyddwch chi'n derbyn eich parcel synhwyraidd nesaf.

Gwehyddu Synhwyrdd gyda Honor Pedican

Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud â theimlo a mwynhau deunyddiau a chreu darn gwehyddu i chi ei gadw a'i fwynhau.

Dewiswyd y deunyddiau gwehyddu oherwydd eu teimlad a'u gwadedd a'u lliwiau gwahanol.

Gallai rhai wneud sŵn crensiàn neu aroglï'n wahanol i'r rhai eraill.

Tra rydych chi'n gwehyddu gyda'ch gilydd dylech annog eich partner i archwilio'r gwadeddau gyda'u dwylo a gadael iddyn nhw ddewis y darn nesaf i'w ddefnyddio. Mae croeso i chi ddefnyddio deunyddiau eraill fel dail, plu neu laswellt, papurau fferins neu sribedi o fagiâu plastig. Medrwch ddefnyddio'r deunyddiau sbâr i wneud ffrâm wau ar unrhyw beth - y tu allan ar ffens, ar gangen neu fainc, neu'r tu mewn ar du ôl cadair?

Gallech ddewis lapio'r deunyddiau o gwmpas ffon neu addurno dodrefnyn neu gadair olwyn!



Cyfarwyddiadau

Hanfodion gwehyddu

Dewiswch ddarn o wllân neu ffabrig o blith y deunyddiau yn y pecyn

Trowch y pen o gwmpas yr wennol

Rhowch y ffrâm wau cardfwrdd o'ch blaen chi a'r un rydych yn gofalu amdano/amdani ar fwrdd neu ar eich gliniau

Ewch â'r wennol dros ac o dan y llinynau nes i chi gyrraedd yr ochr arall

Tynnwch y gwlân neu'r ffabrig yr holl ffordd drwodd

Yna ewch yn ôl trwodd, y ffordd groes i'r symudiad olaf bob tro

Daliwch ati nes i chi ddefnyddio'r holl ffabrig neu wllân

Defnyddiwch eich bysedd i bwysu'r deunydd wedi'u wehyddu i lawr i waelod y ffrâm wau

Dewiswch ddarn arall ac ailadrodd y broses nes bo'r ffrâm wau yn llawn

Torrwch a chlymu pennau'r llinyn gyda'i gilydd mewn parau ar y ddau ben

A bydd gennych chi ddarn o waith celf wedi'i wehyddu i'w fwynhau a'i rannu!

